



Cylchlythyr Ysgol Gynradd Llanybydder Tachwedd 2018



Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Ni yw Arweinwyr Digidol Ysgol Gynradd Llanybydder ac rydym wedi penderfynu creu cylchlythyr i rannu ein profiadau a rhoi gwybod i chi am ddyddiadau pwysig a digwyddiadau sydd i ddod. Rydym yn gobeithio creu cylchlythyr bob hanner tymor. Rydym wedi bod yn brysur iawn hyd yma ac ni fyddwn yn arafu wrth i ni ddechrau paratoui ar gyfer y Cyngerdd Nadolig. Bydd y cylchlythyr nesaf yn cael ei ysgrifennu yn y Flwyddyn Newydd; felly hoffem ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Ym mis Hydref, mentrodd disgyblion o flynyddoedd 4, 5 a 6 i Lain am ymweliad preswyl gyda'n ffrindiau o Ysgol Llanllwni. Cawsom brofiadau gwych a mwynhaodd pawb un arw.

Ar yr 16eg o Dachwedd 2018, gwnaeth disgyblion a staff Ysgol Llanybydder gwisgo i fyny fel pobl enwog am yr achos teilwng hwn. Dewiswyd thema 'pobl enwog' trwy bleidlais ysgol gyfan, ar ôl i'r Cyngor Ysgol feddwl am 3 posibilrwydd gwahanol. Yn y prynhawn, buom yn cerdded o gwmpas y pentref ac yn ymweld â phobl leol a busnesau - roedd pawb yn hael iawn a llwyddwyd i godi £ 315. Diolch i bawb a gyfrannodd.



Ar ddiwrnod Plant mewn Angen, buom yn gweithio fel ysgol i helpu Aled Hughes o BBC Radio Cymru i gyrraedd 10,000 o bawennau llawen. Sganiwch y côd QR i wyllo'r fideo.



Dyddiadau pwysig:

- 7fed o Ragfyr - Taith y Cyfnod Sylfaen
- 12fed o Ragfyr - Cinio Nadolig
- 13eg o Ragfyr - Cyngerdd Nadolig. 2pm a 6pm.
- 14eg o Ragfyr - Diwrnod Siwmpwr Nadolig
- 21ain o Ragfyr - Diwrnod olaf yr ysgol cyn gwyliau'r Nadolig.
- 7fed o Ionawr 2019 - Disgyblion yn ôl yn yr ysgol

Nodyn cwrtais - dylid talu arian cinio ysgol a / neu arian byrbryd bob ddydd Llun. £2.50 am ginio a 30c am ffrwyth y dydd.

Y tymor hwn, enillodd y 'criw Cymraeg' y wobr Efydd am hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ein hysgol. Da iawn chi.

Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan yr ysgol, dilynwch ni ar Drydar (@ysgolbydder) a lawr lwythwch yr app ysgol (Our School App.)
<http://www.llanybydder.amdro.org.uk/>

Diolch



a reminder:

Rhieni Blwyddyn 6 - Cofiwch fod angen i chi wneud cais am Ysgol Uwchradd eich plentyn cyn yr 21ain o Ragfyr. Mwy o fanylion ar y wefan.





Ymwelodd y Cyngor Ysgol ag Ysgol Teilo Sant yr wythnos hon, lle gwnaethon nhw gwrdd ag aelodau Cyngorau Ysgol eraill o nifer o wahanol ysgolion. Fe wnaethant rannu arfer da a syniadau am sut i wella'r Cyngor Ysgol er mwyn buddio'r ysgol gyfan.

Daeth Mr Urdd i weld ni ar Ddiwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd.



Ar y 7fed o Dachwedd, ymwelodd Menter Iaith â'r ysgol i wneud amryw weithgareddau hwyliog gyda'r plant.



Ar y 19eg o Hydref, aeth Blwyddyn 5 a 6 i Glwb Rygbi Llanbedr Pont Steffan ar gyfer gŵyl rygbi. Cawsom amser gwych.



Diolch yn fawr iawn i Rwydwaith Tenantiaid Teifi am eich rhodd garedig.

Beth arall yr ydym wedi bod yn gwneud?

- ❖ Daeth cŵn yr heddlu i'r ysgol i'w gweld ni
- ❖ Cynhaliwyd bore coffi i gasglu arian i Macmillan
- ❖ Aeth rhai ohonom i dwrnamaint pêl-droed yn ysgol Dyffryn Cledlyn
- ❖ Aeth yr ysgol gyfan i'r Gwasanaeth Cynhaeaf yng nghapel Aberduar a chymerodd rhai ohonom ran
- ❖ Aeth rhai o'r plant i'r Gwasanaeth Coffa i osod torch ar ran yr ysgol
- ❖ Mae Blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn dysgu am arwyr a dihirod
- ❖ Aeth rhai disgyblion i gystadlu yn y Gala Nofio
- ❖ Mae Blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn dysgu am yr Oes Fictoria
- ❖ Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi bod yn dysgu am 'Fi a fy myd'

Diolch am ddarlŷn. Gobgithio eich bod wedi gweld y eglehlythyr hyn yn ddefnyddiol. Yr Arwainwyr Digidol: Alex, Cai, Dafydd, Harry and Matthew

